Datganiad Busnes drafft ar gyfer y 3 wythnos nesaf a Phenderfyniadau'r Dirprwy Lywydd ar gyfer dydd Mercher 7 Mawrth 2007

Penderfyniadau

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 6 Mawrth , penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6, nad oes angen cyfeirio'r eitemau deddfwriaeth canlynol i bwyllgor pwnc ar gyfer ystyriaeth estynedig:

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007

Cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2007

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007

Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 2007

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007

Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) 2007

Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Iawndal Dynion Tân (Cymru) 2007

Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2007

Cynnig i gymeradwyo y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2007

Cynnig i gymeradwyo y Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2007

<u>Y Datganiad Busnes Drafft</u>

Dydd Mawrth 13 Mawrth a dydd Mercher 14 Mawrth 2007

Dydd Mawrth 20 Mawrth a dydd Mercher 21 Mawrth 2007

Dydd Mawrth 27 Mawrth a dydd Mercher 28 Mawrth 2007

Dydd Mawrth 13 Mawrth 2007

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)

Datganiad Busnes (10 munud)

Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Datganiad Llywodraeth Leol (30 munud)

Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon o Bêl-droed (30 munud)

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

  - **Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2007**

    Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu ac yn cymryd lle Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2006. Maent yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi mesurau'r Undeb Ewropeaidd a geir yn Rheoliad (EC) rhif 1881/2006 y Comisiwn. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r lefel uchaf o halogion penodol a ganiateir mewn bwyd ac yn rhagnodi bod y dulliau a ddefnyddir wrth samplo a dadansoddi at ddibenion gorfodi fel y rheini a geir yng Nghyfarwyddebau a Rheoliadau'r Comisiwn.

  - **Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2007**

    Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n berthnasol i'r flwyddyn gwota gyfredol (2006/07), yn diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005 i drosi newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd sy'n llywodraethu'r drefn o ran cwotâu llaeth.

Ø **Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007**

Mae’r Rheoliadau hyn yn galluogi trefniadau cyfredol y Gwasanaeth Hylendid Cig ar gyfer codi tâl am gadw’r rheolaethau hylendid cig swyddogol i barhau ac i sicrhau cynnydd o 3.5% yn y tâl a godir o 26 Mawrth 2007.

- **Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2007 (15 Munud)**

Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999, fel y’u diwygiwyd, sy’n llywodraethu aelodaeth y Cyngor a’r trefniadau ar gyfer ethol a phenodi aelodau.

Cynnig i drafod y pedair eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (30 munud)

- **Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Deddf Galluedd Meddyliol (Cychwyn) (Cymru) 2007**

Bydd y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn bosibl i Gymru sefydlu dull o weithredu’r gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA), a grëwyd gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Bydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gychwyn y fframwaith statudol ar gyfer Ymchwil ar bobl analluog, drwy gydnabod cyrff priodol i gymeradwyo gwaith ymchwil ar gyflyrau sy’n amharu, ac i ganiatáu defnydd parhaus o ddeunyddiau a gwybodaeth a gafwyd gan bobl sy'n destun gwaith ymchwil pe baent yn colli galluedd, yn amodol ar fodloni amddiffyniadau penodol.

• Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Corff Priodol) (Cymru) 2007

Mae Adrannau 30 i 34 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer gwaith ymchwil sy'n ymwneud â phobl nad oes ganddynt ddigon o alluedd i gydsynio i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil. Yn benodol, mae adrannau 30 i 33 yn darparu mecanwaith ar gyfer cymeradwyo ymchwil ar faterion sy'n gysylltiedig ag amharu neu darfu ar swyddogaeth yr ymennydd. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y bydd Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG (PMY) sydd ag arbenigedd perthnasol wrth gynghori ar foeseg ym maes ymchwil ymwthiol, yn cael eu cydnabod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y 'corff priodol'.

• Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Colli Galluedd Yn Ystod Prosiect Ymchwil) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â phrosiectau ymchwil a oedd wedi cychwyn cyn i adran 30 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 gael ei rhoi ar waith, y gallent gael eu heffeithio pe bai'r unigolion sy'n destun gwaith ymchwil yn colli galluedd yn ystod prosiectau o'r fath. Mae'r Rheoliadau hyn yn cydbwyso pwysigrwydd y broses o gynnal gwaith ymchwil yn gywir a thrin pobl â diffyg galluedd a gofalu amdanynt, â'r angen i ddiogelu eu teimladau, ac i barchu'r dymuniadau a'r teimladau y maent wedi'u mynegi yn y gorffennol ac ar y pryd.

• Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol) (Cymru) 2007

Bydd y Rheoliadau hyn yn sefydlu'r dull o weithredu'r gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA), a grëwyd gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

• Cynnig I gymeradwyo Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 o dan Rheol Sefydlog 25 rhan 2 (15 munud)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gorfodi Rheoliad (EC) rhif 1760/2000 y Cyngor mewn perthynas â sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru gwartheg, gan

gynnwys beisonod a byfflos. Maent yn atgyfnerthu'r Bovine Animals (Records, Identification and Movement) Order 1995, Cattle Identification Regulations 1998 (fel y'u diwygiwyd), y Cattle Database Regulations 1998 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hyn) (Cymru) 2000.

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2007 o dan Rheolau Sefydlog 25.13,25.14 & 24.24 (1 munud)

Mae'r Gymuned Ewropeaidd wedi rhoi cyfundrefn ar waith sy'n caniatáu pennu lefelau gweddillion uchaf mewn cnydau bwydydd a phorthiant ar sail wyddonol. Mae'r rhaglen wedi cael ei chynllunio i gysoni deddfwriaeth y Gymuned a chryfhau diogelwch i gwsmeriaid drwy ddarparu mecanwaith i gymryd camau os bydd plaleiddiaid yn cael eu camddefnyddio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi dwy Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd (2006/62/EC a 2006/92/EC), sy'n diwygio'r Cyfarwyddebau fframwaith (76/895/EEC, 86/362/EEC, 86/363/EEC a 90/642/EEC) a ddatblygwyd fel rhan o raglen barhaus i bennu lefelau gweddillion uchaf mewn cnydau bwydydd a phorthiant ar gyfer yr holl blaleiddiaid mewn ystod eang o fwydydd.

Yr ail ddadl ar Gynnig Tamsin Dunwoody ar gyfer Is-ddeddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 31 (45 munud)

Cefnogodd y Cynulliad y cynnig gwreiddiol a oedd yn destun dadl ar 14 Tachwedd 2006:

I gynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gweithredu o dan Reol Sefydlog 31.2, yn cefnogi mewn egwyddor, ddeddfwriaeth i:

Ddarparu ar gyfer archwilio Practisau Deintyddol Preifat yng Nghymru a chyflwyno mecanweithiau ar gyfer adrodd ar unrhyw ganfyddiadau.

Dydd Mercher 14 Mawrth 2007

Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (1 munud)

Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)

Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)

Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Y Polisi Gwyddoniaeth (30 munud)

Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol : NHS Waiting Times (30 munud)

Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)

> **Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007**
>
> Bydd y Rheoliadau hyn yn rhagnodi ffurf, amser a dull cyhoeddi'r Gorchmynion drafft sy'n sefydlu Corfforaethau addysg bellach. Mynnant fod yn rhaid cyhoeddi Gorchymyn drafft o leiaf deufis cyn sefydlu corfforaeth addysg bellach a phennant hefyd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi a dosbarthu'r Gorchymyn i garfanau sydd â diddordeb a'r cyhoedd.

Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)

Dadl ar Adolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o Wasanaethau Canser (60 munud)

Y ddadl fer (30 munud)

Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2007

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)

Datganiad Busnes (10 mun)

Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i brosiect craffu Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus – Trefniadau Etholiadol yng Nghymru (30 mun)

Disgwylir i'r Adroddiad gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Mawrth 2006.

Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: Cynlluniau Rheoli Asedau (30 munud)

Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.26 (1 munud)

Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio gofynion sydd yn Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 a Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 ar hyn o bryd.

Maent yn gysylltiedig â'r Safonau y mae gofyn i Ysgolion Annibynnol yng Nghymru gydymffurfio â nhw wrth wneud cais i gofrestru a pharhau i weithredu, yn ogystal â'r wybodaeth y mae gofyn iddynt ei darparu i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Rheoliadau Cynlluniau Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004. Maent:

yn penodi'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ar ran y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol (SVS), fel yr

Awdurdod Rheoli Perthnasol (CCA) ar gyfer y tri Gofyniad Rheoli Statudol (h.y. 16 – 18), a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2007;

yn cryfhau'r gofynion presennol drwy ymestyn y diffiniad o ymrwymiad amaeth-amgylchedd i gynnwys Rheoliadau a Deddfau sydd eisoes yn berthnasol fel yr ymrwymiadau o dan fesurau sy'n rhan o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005 ac adrannau perthnasol Deddfau Cefn Gwlad 1949 ac 1968;

yn gwneud newid i'r drefn o reoli tir ar ôl cyneafu;

yn cryfhau'r gofynion presennol drwy ailddiffinio ac ymestyn pwerau unigolion awdurdodedig (e.e. arolygwyr maes Llywodraeth y Cynulliad) mewn perthynas â chasglu tystiolaeth am unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion trawsgydymffurfio; ac

yn diweddaru cyfeiriadau er mwyn adlewyrchu Rheoliadau a ddiwygiwyd gan y Cyngor a'r Comisiwn Ewropeaidd ers i Reoliadau Cynlluniau Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004 ddod i rym.

Gorchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007

Daeth Awdurdodau Iechyd Cymru i ben ar 1 Ebrill 2003; o'r un dyddiad, daeth Byrddau Iechyd Lleol i rym, ac maent wedi bod yn bennaf gyfrifol am arfer swyddogaethau'r Awdurdodau Iechyd gynt. Fodd bynnag, mae rhai achosion lle mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at yr Awdurdodau Iechyd o hyd. Bydd y Gorchymyn hwn yn gwneud diddymiadau a/neu ddisodli'n briodol mewn deddfwriaeth, gan gynnwys deddfwriaeth nad yw'n gysylltiedig ag iechyd, i ddelio â chyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd (HAs) sydd

bellach yn wallus. Bydd y Gorchymyn hwn felly yn sicrhau bod deddfwriaeth yn adlewyrchu sefyllfa strwythurol bresennol y GIG yng Nghymru ac yn dileu risg camddealltwriaeth neu wallau wrth ddefnyddio'r gyfraith.

• Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygio) (Cymru) 2007 (15 munud)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003. Mae Rheoliadau 2003 yn darparu ar gyfer cyfansoddiad ac aelodaeth Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) gan gynnwys eu gweithdrefnau a'u trefniadau gweinyddol. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod awdurdodau lleol yn cael penodi pobl i'w cynrychioli ar y BILl. Maent yn darparu hefyd ar gyfer hyd pob penodiad ar y Bwrdd ac ar gyfer dod â phenodiadau aelodau'r Bwrdd i ben.

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 (15 munud)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau technegol i Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002 a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 i gywiro cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Nid yw'r rhain mewn grym bellach. Maent hefyd yn egluro diffiniadau ac yn cywiro gwallau croesgyfeirio yn y Rheoliadau y soniwyd amdanynt gynt.

Maent hefyd yn cyflwyno gofyniad i bob penodiad newydd i weithlu ysgol gael ei wirio nifer o weithiau er mwyn sicrhau nad yw'r unigolyn wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant, gan y barnwyd ei fod yn anaddas. Mae'r Rheoliadau hefyd yn berthnasol i staff a benodir gan awdurdod addysg lleol i weithio mewn ysgolion, yn ogystal â'r rheini a ddarperir gan asiantaethau cyflenwi.

Dadl ar Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant ei Mawrhydi (60 munud)

Dydd Mercher 21 Mawrth 2007

Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 mun)

Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 mun)

Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio : Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Adolygiad o Ddigartrefedd ymhlith Pobl Ifanc (30 mun).

Cafodd yr Adroddiad ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Chwefror 2007.

Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.26 (1 munud)

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Mae'r Gorchymyn hwn yn ymdrin â phwerau'r Cynulliad i newid Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Atodlen 12A yn rhestru'r categorïau o wybodaeth y dylai prif gynghorau (h.y. cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r heddlu yng Nghymru) eu hystyried fel 'gwybodaeth eithriedig' na fyddent ar gael i'r cyhoedd eu gweld mewn perthynas â'u cyfarfodydd a'u dogfennau, eu pwyllgorau a'u his-bwyllgorau. Rhaid wrth y diwygiad hwn i sicrhau cydnawsedd â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a ddaeth i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2005 a hefyd gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Ar gyfer y prif gynghorau y mae'r Gorchymyn hwn.

Caiff y Gorchymyn hwn ei wneud ar y cyd â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a'r Pwyllgorau Sefydlog (Cymru) (Diwygio) 2007

Gwnaed y Rheoliadau hyn o ganlyniad i'r Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 sy'n cael ei wneud ar y cyd â'r Rheoliadau hyn. Bydd y Gorchymyn hwnnw'n symleiddio Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac ar yr un pryd, yn ei gysoni â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Bydd symleiddio Atodlen 12A yn arwain at newid rhifau'r paragraffau yn Atodlen 12A. Bydd gofyn o ganlyniad newid y cyfeiriadau at Atodlen 12A yn Rheoliad 10 y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Diwygio) 2001 ac yn Rheoliad 26 Rheoliadau Pwyllgorau Sefydlog (Cymru) (Diwygio) 2001.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys hefyd nifer o ddisgrifiadau ychwanegol o wybodaeth eithriedig lle cynullir Pwyllgor Sefydlog i ystyried cyhuddiadau o gamymddwyn a gyfeirir at sylw swyddog monitro'r awdurdod perthnasol. Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â'r "prif gynghorau" h.y. cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Achub a Thân yng Nghymru.

Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 2007

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi ysgolion sydd â chymeriad crefyddol ac yn nodi beth yw'r cymeriad hwnnw. Mae cymeriad crefyddol ysgol yn rhagnodi'r ffurf ar addysg grefyddol a chyd-addoli sy'n digwydd yn yr ysgol, a gall hefyd effeithio ar benodi staff, gwerthu asedau a chynnwys datganiad ethos yn offeryn llywodraethu'r ysgol. Mae'r Gorchymyn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 1999 a Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004.

Dadl ar Dwristiaeth (60 munud)

Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

Cymru 2005-06 (30 munud)

Y ddadl fer (30 munud)

Dydd Mawrth 27 Mawrth 2007

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)

Datganiad Busnes (10 munud)

Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Bumed Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (30 munud)

Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)

Rheoliadau Hysbysiadau Marchnata Bwyd at Ddefnyddiau Maeth Penodol (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith yng Nghymru Erthyglau 9 ac 11 Cyfarwyddeb 89/398/EEC y Comisiwn fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 1999/41/EC. Eu prif bwrpas yw caniatau i'r Asiantaeth Safonau Bwyd atal neu gyfyngu am gyfnod y fasnach mewn rhai bwydydd at ddefnydd maethol penodol (bwydydd *parnut)* nad ydynt yn rhwydd i'w gwahaniaethu oddi wrth fwyd i'w bwyta at ddiben cyffredin, sy'n peryglu iechyd pobl neu nad ydynt yn addas ar gyfer y defnydd maethol penodol a haerir. Gallai fwyd *parnut* fod yn fwyd y gellid ei ddefnyddio mewn deietau gyda chyfyngiadau ar ynni i golli pwysau neu ddibenion meddygol arbennig, gan gynnwys cynhyrchion arbennig fel bwydydd tiwb mewn ysbytai. Mae'r Rheoliadau hefyd yn parhau â'r trefniadau presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau roi gwybod i'r Asiantaeth Safonau Bwyd pan fyddant yn rhoi bwydydd *parnut* ar y farchnad am y tro cyntaf.

Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru

(Penodi) 2000, er mwyn ystyried Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Maent yn darparu y bydd y Comisiynydd Plant yn cael ei benodi'n gan Brif Weinidog Cymru, fel y'i diffinir o dan adran 46(1) Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ar ôl mis Mai 2007, yn hytrach na chan Brif Ysgrifennydd y Cynulliad, fel y'i diffinir o dan adran 53(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a fydd yn penodi nes y penodir Prif Weinidog newydd.

Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod gofynion statudol yn berthnasol i Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRUs) yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i ysgolion a gynhelir. Yn ogystal, maent yn tynnu ynghyd ofynion presennol ar gyfer arolygu ysgolion, o dan Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006, sy'n berthnasol i PRUs.

Maent hefyd yn dirymu Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) 1994 a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Diwygio)1996.

Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd 2006/37/EC, sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/46/EC. Mae'r diwygiad i'r Gyfarwyddeb yn gwneud newidiadau i'r Atodiad, sy'n rhestru'r fitaminau a'r mwynau a'u ffynonellau, y ceir eu defnyddio wrth weithgynhyrchu ychwanegion bwyd. Mae'n diwygio un o'r penawdau ('folic acid' i 'folate') ac hefyd yn ychwanegu dwy ffynhonnell newydd o fitaminau a mwynau y ceir eu defnyddio wrth weithgynhyrchu ychwanegion bwyd (ffurf arall ar y fitamin ffolad a ffurf arall ar y mwyn haearn).

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 i gynyddu gwerth talebau i gyfrannu at dalu am gostau cyflenwi, cyfnewid neu atgyweirio sbectol, lensys cyffwrdd a chymwysiadau optegol eraill o 2.7%, sef o £49.20 i £50.50.

Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2007 (15 munud)

Mae’r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Cymru) 1997 i gynyddu’r ffi am gynnal prawf llygaid o dan y GIG o £18.39 i £18.85 o 29 Mawrth 2007.

Cynnig i gymeradwyo y Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2007 (15 munud)

Mae tair haen yn perthyn i effaith y Rheoliadau hyn. Yn gyntaf, maent yn cynyddu’r cyfyngiadau cyfalaf a ddefnyddir mewn asesiadau costau preswyl ar gyfer chwyddiant drwy gynyddu’r cyfyngiad cyfalaf uchaf o £21,500 i £22,000 (cynnydd o 2.3%) a chynyddu’r cyfyngiad cyfalaf isaf o swm llawer uwch na chwyddiant, o £16,000 i £17,250 (cynnydd o 7.8%). Yn ail, mae’r Rheoliadau hyn yn adlewyrchu newidiadau penodol i fudd-daliadau sy’n gysylltiedig ag incwm drwy ddiystyru asesiadau costau preswyl, sy’n digwydd o 9 Ebrill 2007. Maent hefyd yn ceisio cyflwyno diwygiad i’r diystyru hwn mewn perthynas â budd-daliadau plant fel eu bod yn cael eu diystyru wrth gyfrifo incwm, heblaw mewn rhai amgylchiadau penodol. Yn olaf, maent yn cynyddu’r swm wythnosol y mae awdurdodau lleol i gymryd y mae ei angen ar y rheini mewn gofal preswyl at eu gofynion personol o £20.00 i £20.88 yr wythnos (cynnydd o 4.4%).

Cynnig i gymeradwyo y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2007 (15 munud)

Bydd y Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("y prif Reoliadau") mewn perthynas â thrin premiymau, disgownt a llog ar fenthyciadau a roddir, yng nghyfrifon awdurdodau lleol ac am gyfnod dros dro i beidio â gofyn i awdurdodau lleol glustnodi darpariaeth ar gyfer ôl-ddyledion tâl cyfartal nes eu bod yn barod i dalu’r ôl-ddyledion hyn.

Slot wedi’i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)

Dadl ar Adroddiad Terfynol y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar Anghenion Addysgol Arbennig - Trefniadau Pontio (60 munud)

Dydd Mercher 28 Mawrth 2007

Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)

Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (30 munud)

Proposal to debate the following 3 items together but with separate votes (15 mins)

Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) 2007

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu cynllun pensiwn newydd i ddynion tân a gyflogir yn y gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru ac mae ar gael i'r rheini a ymunodd ag awdurdod tân ac achub ar 6 Ebrill 2006 neu wedi hynny. Mae'r cynllun pensiwn dynion tân newydd (NFPS) yn dod i rym ar 6 Ebrill 2006. Gall aelodau'r Cynllun Pensiwn Dynion Tân presennol, a gyflwynwyd ym 1992, drwy Orchymyn Cynllun Dynion Tân 1992 (Cynllun 1992) ddewis dod yn aelodau o'r cynllun pensiwn newydd a bydd ganddynt y dewis i drosglwyddo'r cynllun presennol i'r cynllun newydd. Mae Gprchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) 2007 yn darparu cynllun pensiwn i ddynion tân rheolaidd, dynion tân wrth gefn a dynion tân gwirfoddol. Mae hyn yn ymestyn yr aelodaeth o aelodaeth Cynllun 1992, sydd ar gyfer ymladdwyr tân rheolaidd yn unig. Dim ond gweithwyr awdurdod tân ac achub a gyflogir yn y gwaith o ymateb i achosion gweithredol fydd yn gymwys i fod yn aelod, h.y. ymladdwyr tân, rheolwyr criw a rheolwyr gwylfa.

Bydd y Gorchymyn hwn yn ôl-weithredol o 6 Ebrill 2006, heblaw am Ran 13, a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2007, yn unol â'r gyfundrefn dreth newydd sydd wedi'i symleiddio ar gyfer pensiynau o ganlyniad i Ddeddfau Cyllid 2004 a 2005 ac yn unol â newidiadau a wnaed i bensiynau dynion tân mewn ardaloedd eraill yn y DU.

Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Iawndal Dynion Tân (Cymru) 2007

Mae Gorchymyn Cynllun Iawndal Dynion Tân (Cymru) 2007 yn cymryd yr elfen iawndal o Orchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân 1992 ac yn rhoi iawndal i ddynion tân sy'n marw neu'n cael eu hanafu wrth arfer eu dyletswyddau fel dynion tân. Bydd y cynllun yn ôl-weithredol o 1 Ebrill 2006.

Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2007 (15 munud)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r Cynllun Pensiwn Dynion Tân presennol, a

gyflwynwyd ym 1992, drwy Orchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân 1992 (Cynllun 1992), yn unol â'i rym yng Nghymru. Mae'r newidiadau yn bennaf yn sgil cyflwyno'r cynllun pensiwn newydd, a bydd y rhan fwyaf o ddarpariaethau yn dod i rym o 6 Ebrill 2006.

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007 (15 munud)

Bydd y Rheoliadau hyn yn darparu'r fframwaith rheoliadol ar gyfer archwilio gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol bod gan bob awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaeth mabwysiadu ddatganiad o bwrpas sy'n nodi amcanion a nodau'r gwasanaeth a chanllaw i blant. Rhaid darparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n gyson â'r datganiad o bwrpas. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y bobl sy'n rheoli'r gwasanaeth ac ymddygiad y gwasanaeth, ei staffio, addasrwydd y gweithwyr, addasrwydd yr adeiladau a chwynion a chadw cofnodion.

Debate on Freedom of Information (45 mins)

Dadl ar Tir Mynydd (60 munud)

Y ddadl fer (30 munud)